

EITEM 5

CYFARFOD	Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
DYDDIAD	12 Mawrth 2021
ENW	Canllawiau Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid.
PWRPAS	Ystyried a chymeradwyo'r ymatebion arfaethedig i sylwadau am y Canllawiau Cynllunio Atodol Cyfleusterau a llety i dwristiaid a mabwysiadu'r Canllaw.
ARGYMHELLIAD	<p>Gofynnir i'r Pwyllgor-</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Gymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau am y Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid (ii) Mabwysiadu'r CCA: Cyfleusterau a llety i dwristiaid gan ddisodli'r CCA perthnasol blaenorol (Llety gwyliau (CG) a Llety gwyliau (CSYM)) (iii) Rhoi'r hawl i Swyddogion wneud man ddiwygiadau golygyddol i'r ddogfen cyn ei gyhoeddi yn ôl yr angen.
AWDUR	Heledd Jones, Arweinydd Tîm, Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Awdurdodau Cynllunio wedi ymrwymo i baratoi ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno:
- i. Adroddiad Ymgynghori a Chofrestr ynglŷn â'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid (Atodiad 1).
 - ii. Chopi o'r drafft terfynol o'r Canllaw Cynllunio Cyfleusterau a llety i dwristiaid (Atodiad 2).

2. Yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r Canllawiau drafft terfynol

- 2.1 Yn ystod y broses o baratoi'r Canllaw dan sylw, mae'r Panel Cynllun Datblygu ar y Cyd wedi bod yn rhan o graffu ei gynnwys. Yn dilyn derbyn ystyriaeth gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fe dderbyniwyd y Canllaw sêl bendith gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i'w ryddhau ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus (gwanwyn/haf 2018). Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus gwreiddiol ac yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd, ystyriwyd yn briodol cynnal diwygiadau pellach i'r Canllaw mewn perthynas â dau fater penodol sef:-

- 1. Sut i ddiffinio gormodedd o lety hunanwasanaeth, a;
- 2. Sut i ddelio gyda cheisiadau am newid defnydd a cholli gwestai.

- 2.2 Gan fydd y CCA yn ystyriaeth cynllunio berthnasol ar ôl ei fabwysiadu, ystyriwyd y Cyngorau ei fod yn bwysig i rhan-ddeiliaid gael dweud eu dweud ar y newidiadau arwyddocaol hyn. Felly gymeradwyodd rhyddhau'r ddogfen ymgynghori bellach ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Hydref 2018.
- 2.3 Yn ystod cyfarfod o'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2019 fe gyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori a oedd yn dilyn yr ymgynghoriad pellach hwn, gan nodi na fyddai angen gwneud unrhyw ddiwygiad pellach i'r Canllaw yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori pellach ac yn gofyn am yr hawl i gyflwyno'r Canllaw i gyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer ei fabwysiadu.
- 2.4 Yn dilyn cyfarfod o'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd (Mawrth, 2019) fe gyflwynwyd y Canllaw i Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 4 Ebrill, 2019. Yn sgil y drafodaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod yma ystyriwyd yn briodol gwneud man ddiwygiad i eiriad y Canllaw. Ymhellach yn sgil derbyn dyfarniadau apeliadau yn gysylltiedig â asesu 'gorddarpariaeth' o lety gwyliau, amlygwyd yr angen i wneud diwygiad pellach i'r Canllaw.
- 2.5 Oherwydd yr amgylchiadau yn gysylltiedig â pharatoi'r Canllaw, nid yw'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cael cyfle i gymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r ail gyfnod ymgynghori. Mae'r tabl o ymateb y Cyngor i'r ail gyfnod ymgynghori wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 (gweler atodiad 2 o'r ddogfen).
- 2.5 Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 4 Medi, 2020. Paratowyd y drafft hwn mewn ymgynghoriad â swyddogion perthnasol o'r ddau Awdurdod. Cyn hyn, cafodd y CCA ei adolygu gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 24 Ionawr, 2020.
- 2.6 Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 16eg o Hydref hyd at 27ain o Dachwedd, 2020.
- 2.7 Nodir fod y prif ddiwygiad i'r Canllaw a arweiniodd at y trydydd cyfnod ymgynghori yn ymwneud a chynnal diwygiad pellach i'r diffiniad yn gysylltiedig â'r orddarpariaeth o lety gwyliau. Bellach mae'r diffiniad (gweler adran 4.6 o'r Canllaw yn Atodiad 2) yn cynnwys trothwy penodol o ran pryd ystyrir fo yno orddarpariaeth o lety gwyliau hunan arlwyo o fewn ardal benodol. Yn unol â'r arweiniad diwygiedig o fewn y Canllaw, ni ellir rhoi ystyriaeth ffafriol i geisiadau ar gyfer llety gwyliau hunan arlwyo pan fo'r gyfradd gyfunol bresennol o lety gwyliau hunan arlwyo ynghyd a ail-gartrefi eisoes wedi cyrraedd trothwy o 15% o'r holl stoc dai. Ystyrir fod gosod trothwy diffiniadol yn ei wneud yn haws i Swyddogion asesu 'gorddarpariaeth' yng nghyswllt y gofyn hynny sydd wedi ei nodi ym Mholisi TWR 2 o'r CDLI ar y Cyd.

3. Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a Phwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Sir Ynys Môn

- 3.1 Ar gais y Pwyllgor Craffu Cymunedau (Cyngor Gwynedd) mae'r Canllaw wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w graffu. Yn wreiddiol fe adroddwyd i'r Pwyllgor Craffu yn ystod Ebrill 2019 yn dilyn yr ail gyfnod ymgynghori ac yna fe adroddwyd ar y Canllaw iddynt ar 25 Chwefror, 2021. Oherwydd y drefn o adrodd ar y Canllaw yng Ngwynedd, fe ddilynwyd yr arfer da hwn drwy hefyd adrodd ar ei gynnwys i Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn.

- 3.2 Pwrpas y broses hon oedd codi ymwybyddiaeth aelodau Pwyllgor Sgriwtini a Phwyllgor Craffu o ddatblygiad y Canllaw Cynllunio Atodol: 'Cyfleusterau a llety i dwristiaid' a sicrhau fod y canllaw ynghyd â'r Adroddiad Ymgynghori perthnasol yn cael ei graffu.
- 3.3 Nodwyd y materion canlynol yn ystod y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (CSYM):-
- Gallu'r trothwy a osodir yn y Canllaw i gael rheolaeth dros y ddarpariaeth o lety gwyliau mewn ardaloedd arfordirol.
 - Pryder ynglŷn â'r diffyg ymatebion i'r cyfnod ymgynghori, yn enwedig o ystyried y maes yr oedd yn ymwneud ag ef.
 - Pryder cyffredinol ynglŷn â'r cam ddefnydd o garej/tai ar gyfer defnydd llety gwyliau.
 - Cwestiynu pwrpas a statws Canllawiau Cynllunio Atodol yn gyffredinol
- 3.4 Nodwyd y materion canlynol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau:-
- Pryder ynglŷn â'r ymdriniaeth polisi cynllunio o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd mewn perthynas â safleoedd carafanau teithiol a sefydlog.
- 3.5 Nodir fod y ddau bwyllgor wedi cymeradwyo'r adroddiad a gyflwynwyd iddynt.

4. Asesiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 4.1 Cynhaliwyd asesiad sgrinio i benderfynu ai peidio os dylai'r Canllaw hyn fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn unol â Chyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ac Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni Rheoliadau 2004 cysylltiedig. Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARHC) o gynlluniau a rhaglenni a allai effeithio ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol yn un o ofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/42/EEC). Felly, cafodd y Canllaw ei hasesu i benderfynu a oedd asesiad priodol llawn yn ofynnol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.
- 4.2 Mae'r Rheoliadau yn nodi'r broses i Awdurdodau ymgymryd â barn sgrinio. Oherwydd bod y Canllawiau yn cefnogi polisiâu a fuodd yn destun AAS, y casgliad oedd nad oedd angen i'r Canllawiau fod yn destun AAS. Fe gafodd polisiâu'r Cynllun eu hasesu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd ac fe ddaethpwyd i'r casgliad nad oedd angen Asesiad Priodol o'r Cynllun. Oherwydd bod y Canllawiau yn cefnogi rhai o'r polisiâu hynny, fe ddaeth yr asesiad sgrinio a gyfeirir ato ym mharagraff 3.1 uchod i gasgliad nad oedd angen Asesiad Priodol o'r Canllaw hyn.
- 4.3 Yn unol â'r prosesau ar gyfer y Rheoliadau a enwir uchod, cafodd yr asesiad sgrinio eu gyrru i Gyfoeth Naturiol Cymru a CADW, sef y cyrff statudol amgylcheddol penodol. 'Roedd rhaid i'r cyrff yma fynegi eu barn o fewn cyfnod 5 wythnos.
- 4.4 Mae'r broses hwn wedi arwain at benderfyniad bod asesiad sgrinio'r Cynghorau yn gywir, ac, felly, nid oes angen AAS ac Asesiad Priodol o'r Canllaw. Caiff Datganiad Sgrinio eu cyhoeddi yn unol â hynny.

5. Arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol

- 5.1 Ar 24ain o Chwefror 2021 fe gyhoeddwyd fersiwn diwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru, sef Argraffiad 11. Nid yw'r arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol mewn perthynas â thwristiaeth wedi newid o fewn y fersiwn diwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru, fodd bynnag nodir fod y Canllaw wedi ei

ddiwygio er mwyn sicrhau fod cyfeiriadau cywir yn cael ei wneud i rannau o'r arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol cyfredol fel bo'n berthnasol.

- 5.2 Ymhellach, ar yr un diwrnod fe gyhoeddwyd 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040'. Mae yna baragraff wedi ei ychwanegu i'r Canllaw (para 2.1) sydd yn cyfeirio ar y Cynllun Cenedlaethol yng nghyd-destun yr arweiniad a rhoddir mewn perthynas â thwristiaeth.

6. Camau nesaf

- 6.1 Ar ôl i'r Canllaw gael ei fabwysiadu fe fydd yn ystyriaeth cynllunio berthnasol.
- 6.2 Bydd copi o'r Canllaw terfynol ar gael i'w gweld ar wefannau'r ddau Gyngor a chopi caled i'w weld yn swyddfeydd y ddau Wasanaeth Cynllunio a swyddfa'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd pam fydd cyfyngiadau yn caniatáu.
- 6.3 Bydd copi o'r Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus ar gael i'w weld ar wefannau'r ddau Gyngor a chopi caled i'w weld yn swyddfeydd y ddau Wasanaeth Cynllunio a swyddfa'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd pam fydd cyfyngiadau yn caniatáu.
- 6.4 Bydd copi o'r Datganiad Sgrinio'r Asesiad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'w weld ar wefannau'r ddau Gyngor a chopi caled i'w weld yn swyddfeydd y ddau Wasanaeth Cynllunio a swyddfa'r gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd pam fydd cyfyngiadau yn caniatáu.
- 6.5 Byddwn yn rhoi gwybod i bawb wnaeth gyfrannu i'r ymgynghoriad cyhoeddus am y penderfyniad i fabwysiadu'r Canllawiau hyn.

7. Argymhelliad

- 7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor-

- (iv) Gymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau am y Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid
- (v) Mabwysiadu'r CCA: Cyfleusterau a llety i dwristiaid gan ddisodli'r CCA perthnasol blaenorol (Llety gwyliau (CG) a Llety gwyliau (CSYM))
- (vi) Rhoi'r hawl i Swyddogion wneud man ddiwygiadau golygyddol i'r ddogfen cyn ei gyhoeddi yn ôl yr angen.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus am y Canllaw Cynllunio Atodol: Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu

Atodiad 2: Canllaw Cynllunio Atodol: Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu